**Cofnod Penderfyniadau:**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Decision Record:**
**Police and Crime Commissioner for North Wales**

| | |
|---|---|
| | **Rhan 1 / Part 1** |
| | **Cyf/Ref: DM.2023.41** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| DASU Gogledd Cymru – Rhaglen IRIS | DASU North Wales – IRIS Programme |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Mae'r hysbysiad penderfyniad hwn yn cadarnhau bwriad y Comisiynydd i roi £50,000 er mwyn cynorthwyo'r rhaglen IRIS am chwe mis yn Sir Ddinbych.<br><br>Mae'r rhaglen IRIS yn cynnig gwasanaeth cofleidiol therapiwtig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel sy'n mynd i wasanaethau iechyd. Mae'r prosiect yn darparu ymyriad ar sail tystiolaeth sy'n gwella ymateb meddygon teulu i gam-drin domestig.<br><br>Gwnaiff yr addysgwr eirioli cam-drin domestig weithio ar draws 8 meddygfa teulu yn Sir Ddinbych, gan ddarparu cymorth arbenigol i gleifion sydd â mynediad i wasanaethau iechyd mewn meddygfa deulu. Gwnaiff y gweithiwr gynorthwyo goroeswyr sydd â mynediad i'r gwasanaethau iechyd fyw heb ofn yn niogelwch eu cartrefi eu hunain, atal digartrefedd a chaniatáu iddynt ffynnu yn dilyn effaith cam-drin domestig. | This decision notice confirms the Commissioner's intention to provide £50,000 to support the IRIS programme for six months in Denbighshire.<br><br>The IRIS programme offers a therapeutic wraparound service for high-risk Domestic Abuse victims entering health services. The project provides an evidence-based intervention that improves General Practitioners response to Domestic Abuse.<br><br>The domestic abuse advocate educator will work across 8 GP surgeries in Denbighshire providing specialist support to patients that access health services in a GP Setting. The worker will assist survivors accessing health services to live fear free in the safety of their own homes, preventing homelessness and allowing them to thrive following the impact of Domestic Abuse. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| Ariannol – Mae cyfraniad o £50,000.00 ar gael o Gronfa Trosedd ac Anrhefn 23/24 er mwyn cynorthwyo'r gwaith hanfodol hwn.<br><br>Y Cynllun Heddlu a Throsedd – Mae hyn yn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd.<br><br>Y Gymraeg – Mae holl wasanaethau DASU ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>AD – Dim<br>Cydraddoldeb – Dim | Financial – A contribution of £50,000.00 has been made available from the Crime and Disorder Fund 23/24 to support this vital work.<br><br>Police and Crime Plan – This supports the delivery of the Commissioner's Police and Crime Plan.<br><br>Welsh language – All DASU services are available through the medium of the Welsh Language.<br>HR – None<br>Equality – None |
| **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro:** | **Chief Executive and Monitoring Officer:** |
| *Rwyf yn cadarnhau fod hwn yn gais priodol i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, neu*<br><br>*Cyhoeddir Rhan 1 o'r ddogfen hon.* | *I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner, or*<br><br>*Part 1 of this document is to be published.* |

**Cofnod Penderfyniadau:**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Decision Record:**
**Police and Crime Commissioner for North Wales**

| | |
|---|---|
| | |
| **Llofnod / Signature:** | **Dyddiad/Date 31.08.23** |

| **Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | **Approval and comments of Police and Crime Commissioner** |
|---|---|
| Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi ystyried a oes gen i unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater hwn. Rwyf yn cymryd y penderfyniad arfaethedig mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus. Rwyf yn cymeradwyo'r cais uchod. | I confirm I have considered whether I have personal or prejudicial interest in this matter and take the proposed decision in compliance with the Nolan Principles for Conduct in Public Life. The above request has my approval. |
| Llofnod / Signature: | |
| *Andrew Dunbobbin*<br>*Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Police and Crime Commissioner*<br>Dyddiad/Date: 31.08.23 | |